# Gweithdy 1: Gweithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh)

**Sleid 1:** Dim.

**Sleid 2:** Dim.

**Sleid 3: Nodiadau cefndir**
**Ymchwil gan gyflogwyr**
Mae'r astudiaeth ddiweddaraf, *Sgiliau ar gyfer swyddi: Archwiliad Cenedlaethol Sgiliau Strategol i Gymru, 2011*, yn adolygu'r cyfleoedd cyflogaeth heddiw ac yn y gorffennol er mwyn rhagweld anghenion yn y dyfodol. Dywed fod gan Gymru:
"Angen ar draws yr economi i wella **cyflogadwyedd trawsbynciol a sgiliau sylfaenol.**
Awgryma'r dystiolaeth fod yr anghenion mwyaf cyffredin yn ymwneud â:

- Chyfathrebu
- Llythrennedd a rhifedd
- Gweithio mewn tîm
- Datrys problemau
- Sgiliau TGCh ar nifer o lefelau."

**Estyn**
O 2008, mae'r cwricwlwm ysgol diwygiedig wedi canolbwyntio llawer mwy ar ddatblygu sgiliau. Fodd bynnag, nid yw'r *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008), sy'n sail i'r cwricwlwm ysgol, yn statudol.

Mewn dau werthusiad ar wahân o effaith y fframwaith sgiliau (un ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 a'r llall ar gyfer Cyfnod Allweddol 3) daeth Estyn i'r casgliad mai prif effaith y fframwaith sgiliau fu codi ymwybyddiaeth o'r angen i ddatblygu sgiliau dysgwyr, yn enwedig llythrennedd a rhifedd. Yn y ddau werthusiad, daeth Estyn i'r casgliad canlynol hefyd:

- nid yw'r fframwaith sgiliau yn cael ei ddefnyddio'n ddigon eang fel y fframwaith trefnu allweddol ar gyfer datblygu sgiliau o ran cynllunio neu ddarparu
- prin yw'r ysgolion sy'n olrhain dilyniant yn natblygiad sgiliau dysgwyr ar draws y cwricwlwm, felly nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu a mireinio sgiliau.

Yn asesiadau athrawon diwedd Cyfnod Allweddol 2 a 3, mae perfformiad wedi gwella'n gyson yn Cymraeg iaith gyntaf, Saesneg a mathemateg ers 2004. O fewn y pynciau hyn, mae athrawon yn barnu bod sgiliau ysgrifennu dysgwyr yn is na'u sgiliau darllen a llafaredd.

Mae canlyniadau arolwg PISA, 2009, yn dangos bod perfformiad dysgwyr Cymru mewn darllen ar ei hôl hi o'i gymharu â pherfformiad gwledydd eraill y DU.

**Sleid 4: Nodiadau cefndir**
Cydnabyddir yn gyffredinol bod y safonau llythrennedd a rhifedd uchaf yn hanfodol er mwyn sicrhau cynnydd a chyflawniad mewn addysg, ar gyfer iechyd economaidd Cymru, ac er mwyn cefnogi lles cyffredinol y boblogaeth gyfan, yn ogystal ag unigolion.

**Sleid 5: Nodiadau'r dasg**
**Adnoddau** – papur A3, dau ddarn fesul grŵp, pennau/pensiliau lliw.
**Amser** – tua 10 munud.
**Grwpio** – grwpiau o bedwar neu bump.

**Methodoleg**
Gofynnwch i hanner y grwpiau weithio ar 'lythrennedd' a'r hanner arall i weithio ar 'rifedd'.
Gofynnwch i bob grŵp benderfynu ar ei eiriau allweddol. (2 funud)
Cymerwch hapsampl o'r grwpiau (tua thri o bob categori) a gofynnwch am adborth.
(3 munud)
Gofynnwch i'r grwpiau fyfyrio a newid (os oes angen) eu geiriau gwreiddiol. Ond gwnewch yn siŵr eu bod yn cadw at chwe gair yn unig. (1 munud)
Yna, gofynnwch i'r grwpiau roi eu geiriau mewn brawddegau i ddisgrifio 'llythrennedd' neu 'rifedd'. (3 munud)
Dewiswch dri grŵp arall ar hap ym mhob categori i roi adborth.
Unwaith eto, rhowch amser myfyrio i bob grŵp er mwyn iddynt baratoi eu diffiniadau 'terfynol'. (1 munud)
Cadwch y diffiniadau ar gyfer myfyrio parhaus drwy weddill y gweithdy.

**Sleid 6:** Dim.

**Sleid 7:** Dim.

**Sleid 8: Nodiadau cefndir**
Dylai ysgolion symud tuag at sefyllfa lle y defnyddir y FfLlRh fel man cychwyn ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm er mwyn sicrhau dilyniant mewn sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.

**Sleid 9: Nodiadau cefndir**
Mae'r disgwyliadau a amlinellir yn y FfLlRh yn ceisio gwella'r safon mewn rhai achosion o'i gymharu â'r disgrifiadau lefel mewn mathemateg, Cymraeg a Saesneg. Er enghraifft:

- mae'r disgwyliadau ar gyfer diwedd Cyfnod Allweddol 2 yn agosach i Lefel 5
- mae'r disgwyliadau ar gyfer diwedd Cyfnod Allweddol 3 yn agosach i Lefel 6.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adolygiad o'r trefniadau cwricwlwm ac asesu (1 Hydref 2012) i sicrhau cyfatebiaeth.

**Sleid 10:** Dim.

**Sleid 11: Nodiadau cefndir**
Mae datganiadau 'ymestyn' yn y FfLlRh sy'n estyn datblygiad llythrennedd a rhifedd y tu hwnt i Flwyddyn 9 i'r dysgwyr hynny sydd â galluoedd uwch yn y meysydd hyn.

**Sleid 12: Nodiadau cefndir**
Ceir dilyniant o *Ar Drywydd Dysgu* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006), sef y man cychwyn sy'n arwain at Ar drywydd llythrennedd ac Ar drywydd rhifedd ac yna i'r prif fframwaith.

**Sleid 13: Nodiadau cefndir**
Dylai datblygu sgiliau fel y disgrifir gan y FfLlRh gael ei ystyried yn:

- gontinwwm ac nid yn gyfres o sgiliau ar wahân
- cronnus gyda phob elfen/agwedd yn mynnu bod yr elfennau/agweddau yn yr adran flaenorol yn cael eu cyflawni a'u cyfnerthu
- cynhenid oherwydd mae'n rhaid i'r sgil gael ei gymhathu, ei ddefnyddio fel mater o arfer dros amser ac mewn ystod o enghreifftiau, fel ei fod yn ffurfio rhan o stôr arferol

o sgiliau'r dysgwr. Nid yw'n ddigon i ddysgwr arddangos cyflawniad unwaith a chofnodi hyn ar restr dicio.

**Sleid 14: Nodiadau cefndir**
Dylai tasgau gael eu gwahaniaethu er mwyn darparu ar gyfer hyblygrwydd yn sefyllfa gyfredol y dysgwyr o ran datblygiad sgiliau llythrennedd a rhifedd. Byddai tasgau eang yn cynnig modd i ddysgwyr ymarfer ac arddangos nifer o elfennau/agweddau o fewn yr un dasg. Byddai hefyd yn cefnogi dealltwriaeth a gallu dysgwyr o ran cynllunio ar gyfer a datblygu meddwl strategol a monitro eu llwyddiant. Fodd bynnag, dylai pob tasg roi cyfle i ddysgwyr weithio ar eu 'camau nesaf i wella' mewn llythrennedd a rhifedd. Felly, dylai cymorth priodol (megis fframiau ysgrifennu, templedi siartiau llif, geiriau neu ymadroddion allweddol) gael ei lunio a'i ddefnyddio lle y bo'n briodol i gefnogi camau nesaf dysgwyr yn ogystal â sicrhau digon o her ac estyniad ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog.

I ddysgwyr mwy galluog a thalentog, mae ymestyn rhai sgiliau yn mynd y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer diwedd Blwyddyn 9.

I'r dysgwyr hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, mae Ar drywydd llythrennedd ac Ar drywydd rhifedd yn dangos dilyniant sy'n arwain at y FfLlRh o fap llwybrau *Ar Drywydd Dysgu* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006).

**Sleid 15: Nodiadau'r dasg**
D.S. Mae'r tasgau yn y pecyn hyfforddi wedi cael eu cynllunio i sicrhau y gall cyfranogwyr gymhwyso eu sgiliau llythrennedd a rhifedd eu hunain. Mae tasgau'n seiliedig ar gwestiynau PISA wedi'u cynnwys hefyd i godi ymwybyddiaeth o'r math o gwestiynau y bydd dysgwyr yn eu hateb. Felly pan gânt eu defnyddio, mae'r ffont a'r fformat yr union yr un fath â phrofion PISA.

**Adnoddau** – sgwâr ffynhonnell (sleid 16) wedi'i argraffu ar bapur A3, un fesul grŵp, pennau/pensiliau, cwestiwn Llyn Chad (yn y fformat gwreiddiol) wedi'i argraffu dau fesul grŵp, copïau o'r FfLlRh (un i bawb).
**Amser** – tua 20 munud.
**Grwpio** – grwpiau o bedwar neu bump.

**Methodoleg**
Gofynnwch i bob grŵp gwblhau'r sgwâr ffynhonnell o'r tu mewn allan. (5 munud)
Gofynnwch i bob grŵp ddefnyddio ei sgwâr ffynhonnell wedi'i gwblhau i ateb y cwestiynau. (3 munud)
Gofynnwch i bob grŵp restru'r elfennau/agweddau ar y FfLlRh a ddefnyddiwyd yn y dasg hon. (5 munud)
Dewiswch grwpiau ar hap i fwydo yn ôl – pedwar grŵp. (5 munud)
Gofynnwch i bob grŵp fyfyrio ar eu diffiniadau o lythrennedd a rhifedd. (2 funud)

**Sleid 16:** Dim.

**Sleid 17:** Dim.

**Sleid 18: Nodiadau cefndir**
**Ni** chaiff gwybodaeth/data cenedlaethol ar gynnydd ei gasglu gan Lywodraeth Cymru, ond efallai y bydd consortia rhanbarthol unigol yn casglu gwybodaeth/data o'r fath.

Ni ddisgwylir i athrawon, **ac ni fyddai'n briodol i athrawon**, ddefnyddio'r FfLlRh i lunio un datganiad ynghylch a yw dysgwr yn gweithio ar, yn uwch na neu'n is na'r disgwyliadau ar gyfer ei oedran.

Bydd deilliannau o'r profion darllen a rhifedd cenedlaethol yn bwydo i mewn i asesiadau athrawon o gynnydd dysgwyr.

**Sleid 19:** Dim.

**Sleid 20:** Dim.

**Sleid 21: Nodiadau'r dasg**
**Adnoddau** – dim.
**Amser** – 10 munud.
**Grwpio** – grwpiau o bedwar neu bump.

**Methodoleg**
Rhowch amser i fyfyrio ar ddiwedd y trafodaethau grŵp. Man myfyrio cychwynnol yw hwn o fewn y pecyn hyfforddi. Mae cyfranogwyr wedi cael llawer iawn o wybodaeth yn yr awr gyntaf hon. I rai, efallai mai dyma'r tro cyntaf iddynt ymwneud â'r FfLlRh ei hun. Felly, bydd y myfyrio cychwynnol hwn yn ymateb 'byrbwyll' i'r hyn a glywsant yn hytrach na myfyrio ystyrlon ac arfarnol.

Cyn y sesiwn hyfforddi nesaf, mae tasg gysylltu wedi cael ei gosod ar y sleid nesaf a fydd yn mynd â'r broses hon ymhellach gan baratoi cyfranogwyr ar gyfer gweithdai pellach.

**Sleid 22: Nodiadau'r dasg**
Mae tasgau cysylltu yn helpu'r ysgol i adolygu prosesau cyfredol a dealltwriaeth athrawon o ddatblygiad sgiliau llythrennedd a rhifedd. Dylai'r tasgau a awgrymir helpu athrawon i symud tuag at ddefnyddio'r FfLlRh fel man cychwyn ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm.

**Adnoddau** – gridiau GESD wedi'u hargraffu ar bapur A3 i bob person/grŵp o athrawon, yn ôl y gofyn.
**Amser** – dwy i dair wythnos.
**Grwpio** – unigolion, grwpiau pwnc, uwch-reolwyr, yn ôl y gofyn.

**Methodoleg**
Dylid cwblhau'r dasg gysylltu hon dros gyfnod o amser, gyda chyfarfodydd/trafodaethau rhwng grwpiau perthnasol o athrawon wedi'u trefnu i lunio syniadau. Mae'r gridiau GESD yn fan cychwyn ar gyfer penderfynu ar yr hyn y mae angen ei wneud a dylent roi trosolwg i uwch arweinwyr er mwyn gwneud penderfyniadau cychwynnol a blaenoriaethu adnoddau. Fodd bynnag, bydd gweithdai pellach yn y gyfres hon yn mireinio cynlluniau athrawon ac yn arwain at gynlluniau gwella ysgolion manwl a chynhwysfawr. Yn dibynnu ar ddarpariaeth bresennol athrawon ac ysgolion a'u dealltwriaeth o'r FfLlRh, dylai cyfnod o rhwng dwy i dair wythnos fod yn ddigonol i gwblhau'r gridiau GESD cychwynnol hyn.

# Gweithdy 2: Mapio'r cwricwlwm

**Sleid 1:** Dim.

**Sleid 2:** Dim.

**Sleid 3: Nodiadau'r dasg**
Gofynnwch y cwestiwn yn y teitl – yna gwnewch y dasg – cyn dangos yr 'ateb' a awgrymir.

**Adnoddau** – papur, pennau.
**Amser** – tua 5 munud.
**Grwpio** – grwpiau o bedwar neu bump.

**Methodoleg**
Gofynnwch i grwpiau dasgu syniadau ac atebion posibl a phenderfynu ar ddatganiad cydlynol. (3 munud)
Dewiswch dri grŵp ar hap i roi adborth.
Yna cliciwch i ddangos y rheswm a awgrymir.

**Sleid 4: Nodiadau'r dasg**
D.S. Mae'r tasgau yn y pecyn hyfforddi wedi cael eu llunio i sicrhau y gall cyfranogwyr gymhwyso eu sgiliau llythrennedd a rhifedd eu hunain. Mae tasgau'n seiliedig ar gwestiynau PISA wedi'u cynnwys hefyd i godi ymwybyddiaeth o'r math o gwestiynau y bydd dysgwyr yn eu hateb. Felly pan gânt eu defnyddio, mae'r ffont a'r fformat yr union yr un fath â phrofion PISA.

Mae sgiliau llythrennedd a rhifedd wedi'u cysylltu a'u cydblethu. Mae'n hollbwysig bod datblygiad llythrennedd wedi'i gysylltu â datblygiad rhifedd. Mae'r cyswllt hwn yn gymwys i **bob pwnc arall** yn y cwricwlwm.

**Adnoddau** – Cardiau adnoddau'r gweithlu llafur, un set fesul grŵp. Cymerwch un cerdyn a rhowch un wag yn ei le. Mae'n syniad da i dynnu'r un cerdyn o set pob grŵp. Copïau o'r FfLlRh (un i bawb). Ar gyfer ymestyn yn unig – copïau o'r cwestiwn PISA.
**Amser** – tua 15 munud.
**Grwpio** – grwpiau o bedwar neu bump.

**Methodoleg**
Pwrpas y dasg yw i'r cyfranogwyr gynllunio a datblygu strategaeth a fydd yn cynnig modd iddynt ganfod yr wybodaeth sy'n eisiau a defnyddio'r wybodaeth sydd ganddynt i gwblhau'r cerdyn gwag. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid iddynt:

- dynnu'r wybodaeth berthnasol o'r data sydd ganddynt
- cysylltu data a gwybodaeth â'i gilydd
- trefnu'r wybodaeth mewn ffordd sy'n eu galluogi i wneud synnwyr o'r hyn y mae'r data yn ei ddweud wrthynt
- ystyried fformat y data a chynrychioli'r cerdyn sy'n eisiau mewn dull tebyg.

Gofynnwch i barau ymchwilio i'r wybodaeth sydd ganddynt. (5 munud)
Ceisiwch wrthod y temtasiwn i ddweud wrth gyfranogwyr 'beth y mae angen iddynt ei wneud'.

Yn union ar ôl yr 'amser ymchwilio', dylech gael 'sesiwn lawn i bwyso a mesur'. Gofynnwch i'r cyfranogwyr beth yw'r dasg a sut y maent yn gwybod hynny.

Rhowch her i'r cyfranogwyr ganfod beth ddylai'r cerdyn sy'n eisiau ei ddweud/ei gynrychioli. (5 munud)
Mae cwestiynau posibl i'w gofyn yn cynnwys y canlynol.

- Beth sy'n rhaid i chi ei wneud? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pam mae dwy set o rifau ar yr un cardiau? Beth maent yn cyfeirio atynt?
- Beth mae % yn ei olygu? Sut cafodd y gwerth hwnnw ei gyfrifo?
- Beth ydych chi'n meddwl y mae'r '3' uwchysgrif yn cyfeirio ato ar boblogaeth oed y gweithlu? Pam ydy e'n cael ei ddefnyddio?
- Beth a olygir wrth 'boblogaeth oed gweithio'?

Gofynnwch i gyfranogwyr adolygu eu dull yn erbyn elfennau ac agweddau ar gydran **llythrennedd** y FfLlRh. Sut maent wedi'i wneud? Beth fyddai asesiad naratif o'u cryfderau a meysydd i'w datblygu? (5 munud)

Mae angen neilltuo amser digonol i gyfranogwyr gyfiawnhau eu penderfyniadau ac esbonio eu dulliau, gan gynnwys sut y mae'r hyn y maent wedi'i wneud yn cyfateb â chydran llythrennedd y FfLlRh. Gellir gofyn i unrhyw bâr sy'n gorffen cyn yr amser hwn ystyried ffyrdd eraill o drefnu'r cardiau i wirio eu hateb.

Gweithgaredd estyn ardderchog i gyfranogwyr yw gofyn iddynt ysgrifennu cwestiynau yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd ganddynt (ac ysgrifennu cynlluniau marcio/cynhyrchu meini prawf llwyddiant ar gyfer atebion) a'u defnyddio i herio grŵp arall. (10 munud)

Fel arall efallai yr hoffech ofyn i barau ateb y cwestiwn PISA gwreiddiol yn seiliedig ar y gwaith y maent wedi'i wneud. (10 munud)

**Sleid 5:** Dim.

### Sleid 6: Nodiadau cefndir
Ni fydd sgiliau'n datblygu oni bai bod dysgwyr yn cael eu herio i gymhwyso'r sgiliau a ddysgwyd a/neu gwblhau tasgau mwy cymhleth. Pan gânt eu herio, mae'n bosib na fydd dysgwyr yn gallu cymhwyso sgil sydd newydd gael ei ddysgu i gychwyn. Ond drwy ymarfer yn gyson, byddant yn cyfnerthu'r defnydd o'r sgil cyn y gallant gael eu herio eto.

**Sleid 7:** Dim.

### Sleid 8: Nodiadau'r dasg
**Adnoddau** – llungopïau o'r Gorchymyn pwnc neu'r fframwaith perthnasol ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 (un fesul grŵp), cydran llythrennedd y FfLlRh, pennau/pensiliau/pennau aroleuo lliw.
**Amser** – tua 15 munud.
**Grwpio** – grwpiau pwnc-benodol.

### Methodoleg
Gofynnwch i gyfranogwyr edrych ar draws y rhes 'Ymateb a dadansoddi' y FfLlRh yn hytrach nag ar grŵp blwyddyn arbennig a defnyddiwch godau lliw ar gyfer pob datganiad fel yr awgrymir ar y sleid. (10 munud)
Gofynnwch am adborth drwy ddewis pedwar grŵp ar hap i roi adborth. (5 munud)

Rhowch ffocws i'r adborth drwy ofyn y cwestiynau canlynol.
- Beth oedd eich lliwiau gwyrdd? Sut ydynt yn cymharu â phynciau eraill?
- Pa oleuadau ambr ellid eu troi'n wyrdd? Pryd fyddech chi am wneud hyn?
- Oedd unrhyw beth wedi'ch synnu chi yn eich penderfyniadau?

**Sleid 9: Nodiadau'r dasg**
**Adnoddau** – papur/pennau, gridiau GESD wedi'u datblygu o Weithdy 1 a Thasg gysylltu 1.
**Amser** – tua 10 munud.
**Grwpio** – mewn pâr neu grwpiau o dri.

**Methodoleg**
Gofynnwch i bob grŵp drafod y pedwar maes. (5 munud)
Yna, gofynnwch i gyfranogwyr yn unigol i fyfyrio ar y meysydd a phenderfynu beth fydd eu camau nesaf. (5 munud)
Byddai'r ymatebion wedi'u coladu yn ddefnyddiol i uwch-reolwyr gael teimladau cynnar ar y gofynion ar gyfer hyfforddiant a rheoli adnoddau.

**Sleid 10: Nodiadau cefndir**
Gallai cymhwyso ac ymestyn olygu, er enghraifft, darllen/gwneud map mewn daearyddiaeth, cyfeiriadu mewn addysg gorfforol, defnyddio persbectif mewn celf a dylunio, ac ati.

**Sleid 11: Nodiadau cefndir**
Ni fydd sgiliau'n datblygu oni bai bod dysgwyr yn cael eu herio i gymhwyso'r sgiliau a ddysgwyd a/neu gwblhau tasgau mwy cymhleth. Pan gânt eu herio, mae'n bosib na fydd dysgwyr yn gallu cymhwyso sgil sydd newydd gael ei ddysgu i gychwyn. Ond drwy ymarfer yn gyson byddant yn cyfnerthu'r defnydd o'r sgil cyn y gallant gael eu herio eto.

(D.S. Nodiadau wedi'u hailadrodd o lythrennedd.)

**Sleid 12: Nodiadau cefndir**
Datblygu ymresymu rhifyddol yw'r llinyn sylfaenol yng nghydran rhifedd y FfLlRh.

**Sleid 13: Nodiadau'r dasg**
**Adnoddau** – copi o'ch Gorchymyn pwnc/fframwaith eich hun, cydran rhifedd y FfLlRh (un i bawb).
**Amser** – tua 15 munud.
**Grwpio** – grwpiau pwnc-benodol, uchafswm o chwech os oes modd.

**Methodoleg**
Gofynnwch i'r grwpiau benderfynu ar 'weithiau', 'bob tro', 'byth' yn eu Gorchymyn pwnc/fframwaith eu hunain. (5 munud)
Gofynnwch i bob grŵp adolygu dilyniant yn eu datganiad 'bob tro' a ddewiswyd. (5 munud)
Gofynnwch am adborth – cyflwynwyr wedi'u dewis ar hap. (30 eiliad x nifer y grwpiau)

**Sleid 14: Nodiadau cefndir**
Yn gyffredinol, bydd dysgwyr yn gwneud gwaith rhif heb esbonio pam eu bod nhw'n gwneud y prosesau dan sylw. Er mwyn cael at eu rhesymu, mae'n hollbwysig bod athrawon yn gofyn cwestiynau â ffocws.

**Sleid 15: Nodiadau'r dasg**
**Adnoddau** – cydran rhifedd y FfLlRh (un i bawb), prennau mesur, papur, pennau, cyfrifianellau (os oes wir eu hangen).
**Amser** – tua 15 munud.
**Grwpio** – mewn pâr neu grwpiau o dri.

**Methodoleg**
Gofynnwch i athrawon gyfrifo'r raddfa. (5 munud)
Yna gofynnwch, pe byddech wedi gosod y dasg honno ar gyfer y dysgwyr, pa gwestiynau byddai'n rhaid iddynt eu gofyn i gael at ymresymu rhifyddol y dysgwyr. (5 munud)
Gofynnwch am adborth – dewis ar hap. (5 munud)

Y ffordd i gael dysgwyr i ddeall proses ac ymresymu yw gofyn cwestiynau sy'n rhoi cyfle iddynt ddisgrifio'r hyn a wnaethant ac esbonio pam roeddent wedi'i wneud y ffordd honno.

### Sleid 16: Nodiadau'r dasg

**Adnoddau** – papur/pennau, gridiau GESD wedi'u datblygu o Weithdy 1 a Thasg gysylltu 1.
**Amser** – tua 10 munud.
**Grwpio** – grwpiau o ddau neu dri, yna'n unigol.

### Methodoleg

Gofynnwch i bob grŵp drafod y pedwar maes hwn. (5 munud)
Yna, gofynnwch i gyfranogwyr yn unigol i fyfyrio ar y meysydd a phenderfynu beth fydd eu camau nesaf. (5 munud)

### Sleid 17: Nodiadau cefndir

Gallai'r myfyrio parhaus drwy'r gweithdai barhau, gyda thrafodaethau pellach rhwng grwpiau perthnasol o athrawon ynghylch yr hyn y mae angen ei wneud, gan bwy ac erbyn pryd. Byddai'n rhaid i hyn fod dros gyfnod o ddwy i dair wythnos cyn y gweithdy nesaf.

Y dasg gysylltu yw'r un sy'n canolbwyntio ar gwestiynu Socrataidd er mwyn cael at ymresymu rhifyddol y dysgwyr. Mewn gwirionedd, mae hyn yn rhywbeth y mae angen ei ddatblygu ar draws yr holl ddysgu, ac nid yn unig rhifedd. Felly bydd unrhyw hyfforddiant y gellir ei wneud yn y maes hwn o fudd i staff a dysgwyr.

Gofynnwch i athrawon gynnwys cwestiynu â ffocws yn un o'r tasgau y maent yn bwriadu ei defnyddio. Ar ôl iddynt roi cynnig ar hyn, gallech ffurfio grwpiau trafod anffurfiol i athrawon er mwyn iddynt rannu eu casgliadau. Gallai'r grwpiau hyn fod o fewn pynciau neu'n drawsgwricwlaidd eu natur.

# Gweithdy 3: Cynllunio’r cwricwlwm ar gyfer dilyniant

**Sleid 1:** Dim.

**Sleid 2:** Dim.

**Sleid 3: Nodiadau cefndir**
Dylid defnyddio'r sleid i osod y cefndir a chodi agweddau a drafodwyd yng Ngweithdai 1 a 2. Tynnwch sylw at y termau, yn arbennig 'cyfnerthu' a 'chynnydd'. Bwriad y gweithdy hwn yw adolygu cynllunio ar gyfer dilyniant yn hytrach na dim ond cyfnerthu er mwyn symud y dysgu yn ei flaen.

**Sleid 4: Nodiadau'r dasg**
**Adnoddau** – papur A3, pennau.
**Amser** – tua 10 munud.
**Grwpio** – grwpiau o bedwar neu bump – lle'n bosib, gwnewch yn siŵr bod cymysgedd o athrawon o wahanol bynciau.

**Methodoleg**
Ceisiwch annog, a rhowch gyfle i, archwilio syniadau o bersbectif yr athrawon eu hunain o'u profiad nhw gyda gwahanol gyfnodau allweddol ac efallai cyfrifoldeb dros bynciau amrywiol fel cydlynydd.

Ceisiwch adborth gan bob grŵp a chymharwch ddiffiniadau. Cofnodwch y prif bwyntiau o bob un. Cymharwch â'r diffiniadau ar sleid 5.

**Sleid 5: Nodiadau cefndir**
Diffiniadau a disgrifiadau i gymharu â'r canlyniadau o drafodaethau athrawon.

D.S. Pwysleisiwch y gwahaniaeth rhwng cynllunio ar gyfer cyfnerthu yn unig (h.y. mapio'r hyn y mae'r dasg yn ceisio ei gyflawni o ran sgiliau yn erbyn y FfLlRh fel yng Ngweithdy 2) a chynllunio ar gyfer dilyniant (i'w archwilio ymhellach yn y gweithdy hwn). Yn ôl Estyn, dyma'r nodwedd nad yw'n amlwg yn aml mewn cynllunio.

**Sleid 6: Nodiadau'r dasg**
Pwrpas y dasg hon yw dangos bod dilyniant yn llawer mwy cymhleth na datganiadau sgiliau sengl sy'n disgrifio deilliannau a bod cyfnerthu a symud drwy'r camau nesaf yn hollbwysig. Mae'r prosesau a ddisgrifir yn y dasg hon yn darparu'r 'agenda cudd' wrth gyfryngu dilyniant a dylai arwain at drafodaeth helaeth ynghylch sut y byddai cynllunio ar gyfer dysgu ac addysgu'r FfLlRh ar gyfer dilyniant yn weladwy ac yn ystyrlon.

**Adnoddau** – cardiau o 'Arwyddion o ddilyniant' (sleid 7) – un set fesul grŵp, copi o'r FfLlRh.
**Amser** – tua 15 munud.
**Grwpio** – grwpiau o bedwar neu bump o'r un pwnc i gychwyn ond yna jig-so gyda grwpiau o wahanol bynciau lle y bo'n bosibl.

**Methodoleg**
Gofynnwch i gyfranogwyr geisio trefnu'r cardiau i ddisgrifio datblygu sgiliau. (5 munud) Rhowch gyfle i gyfranogwyr arbrofi o ran trefnu'r cardiau. I gychwyn, maent yn debygol o geisio defnyddio dilyniant llinol. Rhowch gyfle i gyfranogwyr bennu drostynt eu hunain a yw hyn yn bosibl. Mae llawer o drafodaeth yn debygol o gael ei chynhyrchu drwy'r datganiadau. Rhowch gyfle i gyfranogwyr 'wrthod' datganiadau os dymunant, ar yr amod eu bod yn cyfiawnhau eu dull.

Gofynnwch i gyfranogwyr gymharu eu dilyniant â'r hyn a ddangosir yn y FfLlRh gan edrych ar draws un neu ddwy o'r rhesi (h.y. elfen neu agwedd). Beth ydynt yn sylwi? Ydy hyn yn newid y ffordd y maent yn meddwl am ddilyniant?

**Sleid 7: Nodiadau cefndir**
Datganiadau a ddefnyddir yn y dasg trefnu cardiau ar sleid 6. Hefyd ar gael fel dogfen Word ar gyfer trefnu cardiau 'Arwyddion o ddilyniant'.

**Sleid 8: Nodiadau cefndir**
Atgoffa o'r FfLlRh.

**Sleid 9: Nodiadau cefndir**
Atgoffa o'r FfLlRh.

**Sleid 10: Nodiadau'r dasg**
**Adnoddau** – copïau o'r FfLlRh, pennau aroleuo, nodiadau gludiog bach.
**Amser** – tua 10 munud.
**Grwpio** – mewn pâr neu grwpiau o dri.

**Methodoleg**
Gofynnwch i gyfranogwyr aroleuo'r termau y teimlant sy'n dangos dilyniant, a defnyddiwch nodiadau gludiog i anodi'r adran hon o'r FfLlRh i ddangos sut y cyflawnir dilyniant (h.y. drwy ba elfennau, agweddau, datganiadau ym mhob grŵp blwyddyn?). Ceisiwch adborth gan ddau neu dri grŵp ar hap a chymharwch syniadau â sleidiau 8 ac 11.

Os oes amser gennych, jig-so parau/grwpiau o dri o wahanol adrannau (ond gyda chysylltiadau posibl, e.e. mathemateg, gwyddoniaeth, dylunio a thechnoleg, ac ati) i rannu persbectif a disgwyliadau o wahanol safbwyntiau pwnc. (10 munud)

**Sleid 11: Nodiadau cefndir**
Crynhowch ble y gellid gweld dilyniant yn y FfLlRh. Efallai yr hoffech dynnu sylw at y rhain o'r dasg flaenorol. Mae'n werth ail-bwysleisio yma bod llythrennedd a rhifedd wedi'u rhyngysylltu'n agos oherwydd bydd cynnydd mewn rhifedd yn cael ei gyfryngu i raddau helaeth gan gynnydd mewn llythrennedd (yn enwedig o ran llafaredd drwy drafod ac esbonio syniadau). Mae'n hollbwysig nad yw cynnydd yn y FfLlRh yn cael ei ystyried fel gweithio drwy elfennau ac agweddau ar wahân, a bod cynnydd mewn un elfen/agwedd yn bwydo ar draws elfennau ac agweddau eraill o fewn llinynnau eraill.

**Sleid 12: Nodiadau cefndir**
Ailystyried ac adfywio syniadau ynghylch asesu ffurfiannol a'r camau nesaf. Atgoffwch cyfranogwyr fod asesu ffurfiannol yn darparu dolen monitro ac adborth barhaus â'r dysgwr.

Y prif bwyntiau i'w gwneud yw:

- ni fydd y camau nesaf **byth** yn symudiad uniongyrchol i'r 'golofn disgwyliadau' nesaf ar y FfLlRh
- cyfeiriwch at y symudiadau bach tuag at y datganiadau 'colofn disgwyliadau' nesaf a dylent fod yn gronnus.

Dylai dysgwyr fod yn gyfarwydd â hunanasesu ac asesu gan gyfoedion ac felly dros amser gallant gynhyrchu eu camau nesaf effeithiol eu hunain ar gyfer gwella.

### Sleid 13: Nodiadau'r dasg

**Adnoddau** – taflen adnoddau 'Safbwynt gyffredin' (un i bawb), pennau lliw.
**Amser** – tua 15 munud.
**Grwpio** – yn unigol ac yna mewn pâr, gan ddechrau gyda'r un pwnc os oes modd ac yna ffurfio grwpiau mwy (jig-so) gyda phwnc arall.

### Methodoleg

I gychwyn, bydd cyfranogwyr yn defnyddio goleuadau traffig yn unigol i ddangos dealltwriaeth o'r termau (coch – ddim yn deall; ambr – meddwl fy mod i'n ei ddeall; gwyrdd – deall yn llwyr). (3 munud)
Gofynnwch i gyfranogwyr rannu canlyniadau eu hunanwerthusiad â'u partner ac yna dewiswch dri o'r geiriau canlynol a thrafodwch sut y gall y termau hyn 'edrych' (h.y. cael eu defnyddio) yn y pynciau gwahanol a nodwyd. (3 munud)

Unwch (jig-so) un pâr â phâr arall (o wahanol faes pwnc). Efallai yr hoffech grwpio ar sail 'cyfresi' tebyg o bynciau, e.e. dyniaethau, gwyddoniaeth/mathemateg/dylunio a thechnoleg, neu gymysgu pynciau ar hap yn ôl pa mor sefydledig y mae gwaith trawsgwricwlaidd yn eich ysgol. Gofynnwch i'r parau rannu casgliadau eu gwerthusiadau a lle y bo'n bosibl, adolygwch derm arbennig gyda chyfranogwyr – os oes ganddynt ddealltwriaeth ohono ac yn ei ddefnyddio, e.e. diagram Carroll. (3 munud).

Ceisiwch adborth gan bob grŵp. Gofynnwch i gyfranogwyr a fyddai'r dysgwyr yn debygol o rannu'r un diffiniadau. Gofynnwch am gyfiawnhad. (3 munud)

Yna, gofynnwch i gyfranogwyr ddefnyddio 'W' (weithiau), 'B' (bob tro) neu 'By' (byth) i ddangos pryd y byddai pob un o'r termau allweddol yn cael eu defnyddio mewn pynciau gwahanol yn y tabl. Tynnwch sylw at faterion ynghylch y defnydd anghyson o iaith gyffredin gyda dysgwyr a'r niwed posibl i ddysgu cynyddol os nad oes unrhyw gysondeb drwy ofyn y cwestiynau ar y sleid. (6 munud)

D.S. Dylid gwneud gwaith pellach ar eirfa gyffredin yng Ngweithdy 5, os oes angen, er mwyn datblygu dealltwriaeth gyffredin ar draws yr ysgol ynghylch y disgrifiadau/defnyddiau a'r diffiniadau o'r termau hyn, a sut y cânt eu disgrifio a'u defnyddio orau gan y dysgwyr. Gall fod yn fan cychwyn ar gyfer rhannu terminoleg bwnc-penodol hefyd.

### Sleid 14: Nodiadau'r dasg

**Adnoddau** – taflen adnoddau 'Chwilio am gysylltiadau', cydran FfLlRh Llafaredd ar draws y cwricwlwm.
**Amser** – tua 20 munud ond efallai yr hoffech ei hestyn a'i defnyddio fel tasg i'w pharhau y tu allan i'r cyfarfod er mwyn llywio cynllun gweithredu (Gweithdy 5).
**Grwpio** – grwpiau bach o bedwar neu bump gyda chyfranogwyr o'r un pwnc.

### Methodoleg

Man cychwyn posibl fyddai defnyddio cynlluniau gwaith blaenorol i adnabod tasgau a chyfleoedd dysgu priodol a ddefnyddiwyd yn y gorffennol a dadadeiladu'r rhain o ran deilliannau mewn llafaredd. Dylai'r tasgau gael eu haddasu a'u mireinio ymhellach i roi sylw i ddilyniant disgwyliedig fel y disgrifir yn y FfLlRh.

D.S. Atgoffwch cyfranogwyr efallai yr hoffent ystyried dysgu blaenorol a'r disgwyliadau sy'n arwain at Flwyddyn 7 a'r tu hwnt i Flwyddyn 9 (Ymestyn) er mwyn darparu gweithgaredd cyfoethog a digon eang i wahaniaethu yn ôl deilliannau (os yw'n bosibl) i'r dysgwyr.

Efallai yr hoffech ymestyn y dasg hon neu ei defnyddio i baratoi ar gyfer cynllunio gweithredu/adolygu cynlluniau gwaith presennol y tu allan i'r gweithdy hwn a rhwng gweithdai fel gwaith adrannol. Nid y cynnyrch terfynol sy'n bwysig o reidrwydd ar yr adeg

hon ond yn hytrach y deialog ynghylch y ffordd orau o gynllunio ar gyfer tasgau cynyddol a pha mor dda y mae'r blaenoriaethau hyn yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd yn ddefnyddiol i gydlynwyr llythrennedd a rhifedd ac uwch-reolwyr i weld canlyniadau'r trafodaethau hyn er mwyn symud tuag at weithredu ac ymgorffori dilyniant FfLlRh ar lefel ysgol gyfan.

Gallai'r dasg hon gael ei defnyddio i osod y cefndir i adolygu sgiliau/llinynnau eraill y FfLlRh yn y tymor hir hefyd.

**Sleid 15: Nodiadau cefndir**
Crynodeb o'r materion a drafodwyd ac a gafodd eu hystyried yn y gweithdy. Efallai yr hoffech ailystyried rhai adrannau a gofyn i gyfranogwyr gynnal adolygiadau mwy manwl yn Nhasg gysylltu 3.

**Sleid 16: Nodiadau cefndir**
Gallai'r myfyrio parhaus drwy'r gweithdai barhau, gyda thrafodaethau pellach rhwng grwpiau perthnasol o athrawon ynghylch yr hyn y mae angen ei wneud, gan bwy ac erbyn pryd. Unwaith eto, byddai'n rhaid i hyn fod dros gyfnod o ddwy i dair wythnos cyn y gweithdy nesaf.

Y dasg gysylltu yw'r un sy'n canolbwyntio ar gynllunio'r cwricwlwm, gan roi amser i athrawon ddechrau meddwl am y newidiadau y mae angen eu gwneud i gychwyn yn eu cynllunio tymor canolig a thymor byr. Dylai grwpiau o athrawon, a hunan-ddewiswyd yn ôl pwnc, grŵp blwyddyn, llythrennedd neu rifedd, gwrdd i drafod sut i wella'r cynlluniau presennol.

## Gweithdy 4: Olrhain, monitro a chofnodi cynnydd

**Sleid 1:** Dim.

**Sleid 2:** Dim.

**Sleid 3: Nodiadau cefndir**
Crynodeb o ddibenion asesu'r FfLlRh.

**Sleid 4:** Dim.

**Sleid 5: Nodiadau cefndir**
Atgoffa bod asesu ffurfiannol yn golygu datblygu cyfleoedd dysgu o Weithdy 3.

**Sleid 6:** Dim.

**Sleid 7: Nodiadau'r dasg**
Mae'r dasg hon yn helpu athrawon i ddefnyddio'r FfLlRh er mwyn ystyried y canlynol:

- ble y dylai'r dysgwr anelu at gyrraedd
- beth fyddai'r camau nesaf er mwyn i'r dysgwr symud tuag at ei nod
- y cwestiynau y gallai'r athro/athrawes eu gofyn i helpu i symud y dysgwr i'w gamau nesaf
- y tasgau y gallai'r athro/athrawes eu gosod i geisio symud y dysgwr i'w gamau nesaf.

Ni awgrymir y dylid defnyddio un darn o waith ar gyfer asesu crynodol.

**Adnoddau** – gwaith y dysgwr 'Pwy ddylai gael yr afu?' (un fesul pâr ym mhob grŵp), cydran llythrennedd y FfLlRh (un i bawb).
**Amser** – tua 10 munud.
**Grwpio** – pedwar i chwech fesul grŵp.

**Methodoleg**
Gofynnwch i'r cyfranogwyr benderfynu ble mae'r dysgwr arni ar hyn o bryd a ble y mae'n rhaid iddo/iddi anelu ato. (5 munud)
Rhannwch syniadau. Dewiswch dri grŵp ar hap i roi adborth.
Gofynnwch i gyfranogwyr drafod y cwestiynau ynghylch beth y mae angen ei wneud nesaf. (5 munud)
Dewiswch adborth ar hap eto.

**Sleid 8: Nodiadau cefndir**
Y term a ddefnyddir yn aml yw 'gallwch arwain ceffyl at ddŵr ond allwch chi ddim ei orfodi i yfed'. Mae'n rhaid i ddysgwyr ymgysylltu a dangos eu bod nhw am gwblhau'r dasg – gwnewch y dasg yn ddeniadol drwy ofyn cwestiwn fel teitl y dasg i ennyn eu diddordeb a chwarae ar chwilfrydedd naturiol y dysgwyr.

Mae cwestiynu Socrataidd (neu â ffocws) (fel y nodwyd yng Ngweithdy 2) yn hollbwysig i wirio dealltwriaeth a herio dysgwyr i wneud cynnydd. Mae'r math yma o gwestiynu yn ceisio cael at y syniadau y tu ôl i benderfyniadau dysgwyr a sgaffaldio eu symudiadau tuag at eu camau nesaf. Mae'r cwestiynau yn canolbwyntio ar y broses y mae'r dysgwyr wedi'u defnyddio i ddod at eu casgliadau i geisio datod eu dealltwriaeth. Mae cwestiynau manwl i gael disgrifiad o'r hyn y maent wedi'i wneud ac yna rhai i esbonio pam eu bod wedi'i wneud y ffordd hon yn fan cychwyn. Dylai hyn helpu athrawon i gael at ddealltwriaeth y dysgwyr. Er mwyn gwthio dysgwyr tuag at eu camau nesaf, mae'n rhaid gofyn cwestiynau sydd wedi'u fframio tuag at eu camau nesaf, megis y rhai ar gyfer dysgwr sydd â'r camau nesaf o ddeall ysgrifennu darbwyllol yn well:

- Pa eiriau darbwyllol fyddech chi'n eu defnyddio i newid eich adroddiad a'i throi'n hysbyseb?
- Ble fyddai'r geiriau hyn yn ffitio?
- Sut byddai strwythur eich adroddiad yn newid i'w droi'n hysbyseb? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa hysbysebion ysgrifenedig ydych chi wedi'u gweld? Sut oeddent yn edrych?

Tasg ddilynol y gellid ei osod fyddai un sy'n adolygu hysbysebion ysgrifenedig a dewis y nodweddion allweddol ac iaith ddarbwyllol. Yna gellid gofyn i'r dysgwr lunio ei hysbyseb ysgrifenedig ei hun.

**Sleid 9: Nodiadau'r dasg**
**Adnoddau** – papur, pennau, cydran rhifedd y FfLlRh.
**Amser** – tua 10 munud.
**Grwpio** – grwpiau bach o bedwar neu bump.

**Methodoleg**
Gofynnwch i gyfranogwyr benderfynu beth allai fod camau nesaf Hari. Gwnewch yn siŵr bod y rhain yn dod o bob rhan o'r cwricwlwm lle'n bosibl. (5 munud)
Gofynnwch i bob grŵp ddewis un dasg i'w chwblhau yn y dyfodol a datblygu cwestiynau â ffocws (Socrataidd) y gallent eu defnyddio i gael hyd i'w lefel ddealltwriaeth gyfredol wrth iddo gwblhau'r dasg hon. (5 munud)
Ceisiwch adborth gan dri neu bedwar grŵp wedi'u dewis ar hap.

**Nodiadau cefndir**
Mae'r broses hon o osod camau nesaf yn ddull sydd wedi'i gynnwys o fewn theori adeileddol dysgu. Roedd Vygotsky yn ei alw'n Barth Datblygiad Procismol neu PDP.

Fe sylwodd pan oedd plant yn cael tasgau i'w cwblhau ar eu pennau eu hunain, nid oeddent yn gwneud cystal fel arfer â phan oeddent yn gweithio ar y cyd ag oedolyn neu gyfoed. Ond nid oedd yr oedolyn/cyfoed yn eu haddysgu sut i gwblhau'r dasg bob tro; yn hytrach, roedd y broses o ymgysylltu wedi eu galluogi i fireinio eu meddwl neu eu perfformiad i'w wneud yn fwy effeithiol. Felly, yn ei farn ef, roedd datblygu iaith a'r gallu i fynegi syniadau yn ganolog i ddysgu a datblygu. Y syniad synnwyr cyffredin sy'n cyfateb agosaf â'r model hwn yw '**ymestyn**' dysgwyr.

Mae'n gyffredin wrth lunio rhestrau gwirio i gael colofnau ar gyfer 'ddim yn gallu ei wneud eto', 'gallu ei wneud gyda chymorth', a 'gallu ei wneud ar eu pennau eu hunain'. Mae'r PDP yn ymwneud â'r rhai sy'n 'gallu ei wneud gyda chymorth', nid fel cyflwr parhaol ond fel cam tuag at allu gwneud rhywbeth ar eu pennau eu hunain. Yr hyn sy'n allweddol er mwyn 'ymestyn' y dysgwr yw gwybod beth sydd yn PDP yr unigolyn hwnnw - beth sy'n dod nesaf, iddynt. Mewn geiriau eraill eu **camau nesaf**.

**Sleid 10: Nodiadau cefndir**
Crynodeb o'r cyfleoedd i olrhain.

**Sleid 11: Nodiadau cefndir**
Crynodeb o'r cyfleoedd i olrhain.

**Sleid 12: Nodiadau cefndir**
Gofynnwch i gyfranogwyr drafod y canlynol.
- Pa mor aml fyddai'n rhaid i chi gofnodi eich penderfyniadau?
- Beth sy'n ymarferol?
- Sut byddai hyn yn helpu dysgwyr i wneud cynnydd?

- Sut mae hyn yn cyfateb â'ch gweithdrefnau olrhain presennol?
- Sut gallai'ch systemau olrhain presennol gael eu haddasu i gyfateb â gofynion a disgwyliadau'r FfLlRh?
- Beth fyddai'n rhaid i chi ei wneud i sicrhau eich bod chi'n gwybod ble mae'r dysgwyr i gyd arni yn erbyn y FfLlRh – gan gynnwys dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a dysgwyr mwy galluog a thalentog?

**Sleid 13: Nodiadau cefndir**
Gallwch olrhain tuag at nod, megis disgwyliadau'r flwyddyn nesaf, neu o fan cychwyn, megis deilliannau'r flwyddyn ddiwethaf. P'un bynnag a ddefnyddir, mae'n hollbwysig olrhain yn rheolaidd (bob hanner tymor neu dymor llawn) a sicrhau bod y staff i gyd yn deall beth y maent yn ei olrhain.

Gellid cyfuno'r ddau fodel. Mae'n rhaid i bob ysgol feddwl pa system olrhain fyddai'n fwyaf priodol ar gyfer eu dysgwyr, eu hathrawon a'u rhieni/gofalwyr.

**Sleid 14: Nodiadau cefndir**
Fel y nodwyd yn gynharach, cynnydd i ffwrdd o'r asesiadau crynodol diwethaf **neu** tuag at ddisgwyliadau targed. Gellid cyfuno data a gwybodaeth allanol hefyd ag olrhain ar gyfer cynnydd yn y FfLlRh. Bydd rhaid i bob ysgol wneud ei phenderfyniadau ei hun.

**Sleid 15: Nodiadau cefndir**
Mae'n hollbwysig bod pob dysgwr yn cael ei wthio i wneud cynnydd bob amser. Gallai'r dilyniant hwn fod yn nhermau cymhwyso'r sgil hwnnw neu ei wella. Bydd rhaid casglu gwybodaeth olrhain grynodol yn achlysurol. Ysgolion fydd yn penderfynu ar yr amseriad.

**Sleid 16: Nodiadau cefndir**
Bydd y deunyddiau asesu yng ngham nesaf y canllaw hwn yn gweithredu fel sgerbwd y gellir datblygu deunyddiau eich dysgwyr eich hun o'i gwmpas. Mae un o'r tasgau cysylltu yn dilyn y gweithdy hwn yn arwain athrawon at ddechrau casglu tystiolaeth. Bydd trafodaethau trawsgwricwlaidd a thraws-gam/cyfnod allweddol o safonau yn ddull allweddol i ysgolion wrth iddynt geisio sicrhau cysondeb mewn cymhwyso ac asesu'r FfLlRh.

**Sleid 17:** Dim.

**Sleid 18: Nodiadau'r dasg**
**Adnoddau** – taflen Excel olrhain grŵp (un fesul pâr), cydran llythrennedd y FfLlRh.
**Amser** – tua 10 munud.
**Grwpio** – mewn pâr ac yna mewn grwpiau o bedwar i chwech.

**Methodoleg**
Gofynnwch i barau lunio eu cwestiynau cychwynnol. (5 munud)
Trafodwch er mwyn rhannu syniadau.
Gofynnwch i bob pâr gynnig pum syniad ar beth y mae angen ei wneud nesaf. (5 munud)
Dewch â'r parau at ei gilydd i ffurfio grwpiau o chwech (jig-so). Gofynnwch i gyfranogwyr rannu syniadau ar draws y grŵp. Atgoffwch nhw i ganolbwyntio ar y dysgwyr hynny sydd â blychau gwyrdd ac nid yn unig y rhai sydd â blychau coch neu ambr.

**Sleid 19:** Dim.

**Sleid 20:** Dim.

**Sleid 21: Nodiadau'r dasg**
**Adnoddau** – taflen Excel 'Olrhain', FfLlRh.
**Amser** – tua 10 munud.
**Grwpio** – parau.

**Methodoleg**
Gofynnwch i gyfranogwyr ysgrifennu naratif byr am Siân P. (5 munud)
Rhannwch syniadau.
Gofynnwch iddynt feddwl am y strwythur a ddefnyddiwyd ac a ellid ei addasu ar gyfer James B. Pa broblemau oeddent wedi'u hwynebu? Sut gallent oresgyn y problemau hyn? (5 munud)
Rhannwch syniadau.

**Sleid 22: Nodiadau cefndir**
Cyn symud ymlaen i Weithdy 5, gallech gasglu syniadau ar sut y mae angen addasu systemau olrhain ac adrodd cyfredol mewn ysgolion. Ni fyddai'n rhaid gwneud penderfyniadau terfynol eto oherwydd bydd Gweithdy 5 yn arwain athrawon tuag at hunanasesiad trylwyr er mwyn gwneud penderfyniadau terfynol.

Gallech lunio'r ddwy dasg gysylltu i'w cynnal dros gyfnod o ddwy i dair wythnos. Gallai fod yn syniad da i osgoi defnyddio banciau sylwadau (sy'n rhy gyffredin ac anhyblyg ar y cyfan) a symud tuag at naratif ymarferol. Mae rhai ysgolion yn defnyddio model 'sêr a dymuniad' ar gyfer adrodd. Ond mae nifer o ddulliau eraill a dylai ysgolion wneud eu penderfyniadau eu hunain gan roi sylw i strwythurau a phrosesau adrodd presennol.

Bydd ysgolion uwchradd hefyd yn ystyried p'un ai i lunio adroddiadau pwnc unigol ar gyfer pob dysgwr neu uno sylwadau gan athrawon unigol i lunio un adroddiad llythrennedd ac un adroddiad rhifedd ar gyfer pob dysgwr.

# Gweithdy 5: Y camau nesaf

**Sleid 1:** Dim.

**Sleid 2: Nodiadau cefndir**
Bwriad y gweithdy hwn yw dwyn ynghyd y materion a gafodd eu trafod yn y gweithdai blaenorol ac ystyried yn fwy manwl y dulliau posibl o ymgorffori'r FfLlRh gan ddechrau gyda'r safleoedd, gwerthoedd a syniadau presennol. Darperir profformas/adnoddau/templedi i gefnogi hunanwerthuso, archwilio a chynllunio gweithredu – ar lefel athro dosbarth/athrawes ddosbarth, grŵp blwyddyn, cyfnod allweddol a'r uwch dîm rheoli (UDRh). Bwriedir i'r gweithdy gael ei ddefnyddio mewn modd hyblyg i lansio cynllunio gweithredu pwrpasol ar gyfer gweithredu a defnyddio'r FfLlRh ar draws yr ysgol gyfan.

Dylai ysgolion ddewis pa brofformas sy'n fwyaf addas i'w hathrawon eu defnyddio ac ym mha fformat i'w defnyddio (Excel neu Word). Ni fwriedir i'r holl brofformas gael eu defnyddio gan bob ysgol.

**Sleid 3: Nodiadau cefndir**
Mae'r gweithdy hwn yn datblygu ymhellach y syniadau yn y gridiau GESD, a gafodd eu cynhyrchu yng Ngweithdy 1, ac a fireiniwyd drwy weithdai eraill. Mae'r gweithdy hwn yn darparu nifer o brofformas y gall cyfranogwyr eu defnyddio i wella eu gridiau GESD gan symud tuag at gynllun gweithredu â ffocws.

**Nodiadau'r dasg**
**Adnoddau** – gridiau GESD eich hun.
**Amser** – tua 5 munud.
**Grwpio** – mewn pâr.

**Methodoleg**
Caniatewch yr amser a neilltuwyd i drafod a dewiswch hyd at bedwar unigolyn ar hap i fwydo yn ôl.

**Sleid 4: Nodiadau cefndir**
Mae'r sleid hon yn rhoi trosolwg o'r materion sy'n ymwneud ag ymgorffori'r FfLlRh ar draws yr ysgol gyfan a'r dulliau posibl i gefnogi hyn. Mae'r materion hyn yn cael sylw mwy manwl ar y sleid nesaf gan gynnwys amlinellu'r adnoddau sydd ar gael fel dogfennau Excel a Word i gefnogi hyn i athrawon dosbarth ac i'w coladu gan uwch-reolwyr i gefnogi gweithredu ar draws yr ysgol gyfan.

D.S. Er bydd y materion hyn wedi'u trafod yn y gweithdai blaenorol ac mae rhywfaint o drafodaeth ar raddfa fach fesul pwnc neu grŵp blwyddyn yn debygol, bwriedir i'r adnoddau yma gael eu defnyddio fesul grŵp blwyddyn/pwnc i fwydo i mewn i fatrics ysgol gyfan neu gynllun gweithredu mwy. (Amlinellir hyn yn y ddogfen Word ategol 'Trosolwg o adnoddau wedi'u cynnwys yn y gweithdy'.)

**Sleid 5: Nodiadau cefndir**
Mae'r sleid hon yn ystyried materion a fydd wedi cael eu trafod mewn gweithdai blaenorol. Mae'n crynhoi'r dulliau gwahanol y gellid eu gweithredu ar raddfa fawr (ac a fydd wedi cael eu harchwilio fel gweithgareddau ar wahân ar raddfa fach mewn gweithdai blaenorol). Mae profformas, adnoddau ac archwiliadau electronig yn cael eu darparu yn fwy manwl yma.

- Archwiliadau pwnc/adrannol yn erbyn y FfLlRh ar gyfer pob grŵp blwyddyn – 'Archwiliad rhifedd penodol ar gyfer pynciau', 'Archwiliad llythrennedd penodol ar gyfer pynciau' (fel Word ac Excel) – i fwydo i mewn i'r matrics ysgol gyfan.

- Archwiliad ysgol gyfan o gyfleoedd dysgu cyfredol ar draws y cwricwlwm yn erbyn y FfLlRh – 'Matrics archwiliad ysgol gyfan' (Excel).

Rhagwelir y bydd yr wybodaeth a gesglir o archwiliadau pwnc penodol yn cael ei bwydo i mewn yma i gynllunio ar gyfer bylchau yn y ddarpariaeth/gwirio bod y disgwyliadau yn gyffredin.

- Cryfderau a meysydd i'w datblygu ymddangosiadol y cohortau cyfredol yn erbyn y FfLlRh – 'Archwiliad FfLlRh o allu dysgwyr' (fel Word ac Excel).

Rhagwelir y gellid defnyddio'r dulliau hyn fel man cychwyn i drafod disgwyliadau a deilliannau cyffredin a llywio cynllunio gweithredu a gosod tasgau cynyddol.

- Adnabod y blaenoriaethau allweddol ym mhob maes pwnc o'r archwiliad. Fe'i defnyddir i gynhyrchu rhestr o'r gwaith i'w wneud o ganlyniad i'r archwiliadau uchod.
- Cynllun gweithredu i roi sylw i flaenoriaethau tymor byr – 'Cynllunio gweithredu ar gyfer blaenoriaethau' (dogfen Word).

Rhagwelir y byddai pob pwnc/grŵp blwyddyn yn cwblhau cynllun gweithredu yn amlinellu eu cynlluniau (yn seiliedig ar gryfderau a heriau o'r archwiliadau) a fyddai'n cael eu coladu gan uwch-reolwyr i roi disgrifiad llawn o'r blaenoriaethau gan gynnig modd datblygu cynllun gweithredu ysgol gyfan.

**Sleid 6: Nodiadau cefndir**
Yn dilyn ymlaen o archwiliadau o arfer cyfredol, dylai'r blaenoriaethau tymor byr gael eu sefydlu'n hawdd. Gellir ffurfio'r rhain yn gynlluniau gweithredu.

Rhagwelir mewn ysgolion uwchradd, bydd cynlluniau gweithredu adrannol (yn seiliedig ar feysydd pwnc) yn debygol o gael eu llunio. Yn yr un modd efallai y bydd athrawon cynradd am fabwysiadau cynllun gweithredu pwnc-seiliedig i gychwyn neu os yw'r gwaith yn fwy datblygedig, efallai y byddant am ddatblygu gweithredu trawsgwricwlaidd. Yn dibynnu ar gasgliadau archwiliadau a'r cyfeiriad yr hoffai'r ysgol fynd iddo, gallai'r cynlluniau gweithredu hyn ddisgrifio pwyntiau gweithredu ar gyfer grŵp blwyddyn neu gyfnod allweddol arbennig. Mae'r profformas cynllun gweithredu a ddatblygir yma yn canolbwyntio ar elfennau gwahanol o'r FfLlRh er mwyn cyfeirio gweithredu lle y mae'n fwyaf priodol i'r ysgol ar yr adeg honno. Os yw'n briodol, efallai yr hoffai'r ysgol gyfuno pwyntiau gweithredu ar gyfer elfennau mewn dau gynllun gweithredu ar raddfa fawr – ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, mae'n cynllunio ar gyfer pob agwedd ar y FfLlRh – ni ddylai unrhyw un elfen gymryd mwy o flaenoriaeth oni bai bod archwiliadau wedi tynnu sylw at feysydd datblygu o bwys ar gyfer y sgil arbennig hwnnw. Mae hefyd yn hollbwysig na ddylai datblygiad llythrennedd a rhifedd gael ei ystyried yn annibynnol ar ei gilydd fel y trafodir trwy gydol yr holl weithdai.

Fel y nodwyd yn flaenorol, dylai'r adnoddau gael eu defnyddio'n hyblyg yng nghyd-destun cyfeiriad yr ysgol ei hun a gofynion gwella'r ysgol.

Rhagwelir y byddai'r UDRh yn coladu'r holl gynlluniau gweithredu i gynhyrchu cynllun gweithredu ysgol cyffredinol ar draws y cwricwlwm ar gyfer grŵp blwyddyn neu gam/cyfnod allweddol arbennig. Unwaith eto gall hyn fod drwy elfen benodol o'r FfLlRh neu ei gyfuno i roi cynllun gweithredu llythrennedd a rhifedd. Bydd cynlluniau gweithredu yn fan cychwyn da ar gyfer datblygu datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) a gofynion hyfforddi ar sail unigol, pwnc-seiliedig ac ysgol gyfan. Trafodir hyn ymhellach yn sleid 8.

Dylai'r cynlluniau gweithredu hyn lywio hunanwerthuso ysgol gyfan a phwnc-seiliedig (adrannol). Felly mae'n hanfodol y cânt eu defnyddio fel dogfennau gweithio a'u defnyddio i fyfyrio a gwella gweithredu'r FfLlRh.

**Sleid 7: Nodiadau cefndir**
Mae'n ystyried y syniadau a ddatblygwyd yng Ngweithdy 3 ar osod tasgau cynyddol. Mae'n annog athrawon i feddwl am ddilyniant a sut y caiff ei arddangos ar draws cam/cyfnod allweddol a pha gyfleoedd gaiff eu cynllunio i enghreifftio hyn. Felly bydd hyn yn cefnogi cynllunio tasgau yn y tymor canolig.

Mae dau dempled 'Cynllunio tymor canolig ar gyfer cynnydd a 'Throsolwg o gynllunio tymor canolig ar gyfer cynnydd i'r UDRh' (y ddau yn Word) wedi cael eu cynnwys i gefnogi cynllunio tasgau cynyddol a chynllunio ar gyfer dilyniant ar draws grŵp blwyddyn i athrawon ac i'w coladu gan yr UDRh. Yn ogystal, gellid defnyddio'r un templed mewn pynciau i arddangos sut y mae'r llinynnau/elfennau/agweddau yn gwneud cynnydd ar draws y cam/cyfnod allweddol. Byddai hyn yn darparu ar gyfer golwg mwy hirdymor a chyfannol o gynllunio ar gyfer dilyniant a phriodoldeb tasgau yn y pynciau/themâu (byddai hefyd yn tynnu sylw at unrhyw feysydd posibl o waith datblygu). Rhagwelir y byddai athrawon o'r un grwpiau blwyddyn i gychwyn yn cyflawni'r gwaith hwn ac yn ystyried dysgu ac addysgu ar draws pob pwnc. Mae'n hollbwysig i gymharu'r cynlluniau hyn â chydweithwyr o'r grwpiau blwyddyn nesaf i sicrhau cydlyniant a dilyniant (ac adnabod unrhyw anghysondebau posibl mewn dilyniant yn y FfLlRh ar gyfer cynllunio tasgau).

Gellir ei ddefnyddio fel rhan o'r broses hunanwerthuso i ystyried effeithiolrwydd cynllunio sgiliau a sut y caiff dilyniant ei ddatblygu a'i fonitro. Bydd yn cefnogi tystiolaeth tuag at Gwestiwn Allweddol 1 a Chwestiwn Allweddol 2 Fframwaith Arolygu Cyffredin (FfAC) Estyn.

**Sleid 8: Nodiadau cefndir**
I'w ddefnyddio fel trafodaeth. Mae'r materion hyn wedi cael eu codi o'r blaen yn y gweithdai ond bydd yn ddefnyddiol i'w hailystyried, yn enwedig geirfa gyffredin, yn fwy manwl yma.

- O gynlluniau gweithredu cychwynnol, byddai'n ddefnyddiol llunio rhestr o ofynion hyfforddi adrannol ac unigol i gefnogi datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd ac ystyried natur gyffredin y ceisiadau i dynnu sylw at hyfforddiant ysgol gyfan posibl.
- Terminoleg/geirfa allweddol gyffredin – 'Safbwynt cyffredin' (dogfen Word wedi'i defnyddio yng Ngweithdy 3).

Mae'r agwedd hon wedi cael ei thrafod yng Ngweithdy 3 ac mae angen ei drafod ymhellach i sicrhau bod yr holl derminoleg wedi'i rhannu. Mae'n rhaid ychwanegu termau eraill o bob rhan o'r cwricwlwm er mwyn asesu defnydd a dealltwriaeth athrawon o'r termau hyn o'r FfLlRh a sefydlu iaith gyffredin. Byddai hefyd yn ddefnyddiol i gymharu â syniadau dysgwyr.

Unwaith eto, yn debygol o gael ei godi i gychwyn mewn cynlluniau gweithredu, ac ati. Unrhyw adnoddau cyffredin sydd eu hangen i gefnogi addysgu a dysgu, e.e. posteri, llinellau rhif, sbardunau cwestiynau, ac ati.

**Sleid 9: Nodiadau cefndir**
Mae sleidiau 9 a 10 yn dangos sut mae gwaith ar y FfLlRh yn cysylltu â'r FfAC. Mae'r archwiliadau a'r hunanwerthusiadau (y profformas) wedi'u cynllunio i'w defnyddio i ddarparu tystiolaeth ar gyfer y cwestiynau allweddol hyn.

Efallai yr hoffech ofyn i gydweithwyr ystyried sut y gellid defnyddio'r archwiliadau a'r adnoddau a gyflenwyd gyda'r gweithdy hwn i ddarparu tystiolaeth ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn.

**Sleid 10: Nodiadau cefndir**
Mae'r archwiliadau a'r hunanwerthusiadau (y profformas) wedi'u cynllunio i'w defnyddio i ddarparu tystiolaeth ar gyfer y cwestiynau allweddol hyn.

Efallai yr hoffech ofyn i gydweithwyr ystyried sut y gellid defnyddio'r archwiliadau a'r adnoddau a gyflenwyd gyda'r gweithdy hwn i ddarparu tystiolaeth ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn.

**Sleid 11: Nodiadau'r dasg**
**Adnoddau** – nodiadau gludiog, papur, pennau.
**Amser** – tua 15 munud.
**Grwpio** – grwpiau o bedwar neu bump.

**Methodoleg**
Gan weithio mewn grwpiau bach o fewn yr un pwnc, ac os yw amser yn caniatáu mewn pynciau trawsgwricwlaidd, gofynnwch i gyfranogwyr drafod pa ddulliau sydd wedi'u sefydlu ac sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd i ddarparu tystiolaeth ar ansawdd dysgu ac addysgu yn gyffredinol yn yr ysgol (efallai yr hoffech ddefnyddio mapio meddwl neu fatiau bwrdd i gefnogi'r drafodaeth ac annog cyfraniadau effeithiol os dymunwch). Gan ddefnyddio'r cwestiynau ar y sleid i gefnogi'r drafodaeth, atgyfnerthwch y ffaith nad rhywbeth sy'n cael ei wneud er mwyn gwerthuso cynllun datblygu'r ysgol ar ddiwedd y flwyddyn yw hunanwerthuso nac er mwyn paratoi ar gyfer archwiliad, ond ei fod yn bwydo i mewn i addysgu a dysgu bob dydd. Y syniad yma yw adeiladu ar yr hyn sy'n effeithiol ar hyn o bryd a'i estyn i gynnwys y FfLlRh yn naturiol. Dylai canlyniadau'r drafodaeth hon ddarparu man cychwyn defnyddiol i ystyried ymagwedd ysgol gyfan at ymgorffori'r FfLlRh a datblygu cynllunio gweithredu ar ei gyfer. Mae templed cynllun gweithredu wedi'i ddarparu yn yr adnoddau atodol – 'Cynllunio gweithredu ar gyfer blaenoriaethau' (Word).

**Sleid 12: Nodiadau cefndir**
Rhai awgrymiadau o fecanweithiau poblogaidd a ddefnyddir mewn ysgolion eraill. Gallant fod yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer trafod i gefnogi blaengynllunio.

Y cwestiwn allweddol i'w ofyn yw 'Beth allwn ni fel ysgol ei ddefnyddio i lywio a chefnogi ein cynlluniau a'n dyheadau?'.

**Sleid 13: Nodiadau'r dasg**
**Adnoddau** – copïau o'r FfLlRh a chynlluniau gwaith/cynlluniau dysgu.
**Amser** – tua 15 munud (fel man cychwyn).
**Grwpio** – grwpiau o bedwar neu bump.

**Methodoleg**
Gellid defnyddio'r sleid hon i gefnogi trafodaethau ar ôl y gweithdy hwn – fel y camau nesaf cyn cyfarfodydd dilynol a chynllunio gweithredu. Rhagwelir bod hwn yn debygol o gael ei ddefnyddio i gynhyrchu trafodaeth a chodi ymwybyddiaeth o bosib ynghylch newidiadau cyfeiriad posibl o ran trefnu a chynllunio'r cwricwlwm (gan gynnwys manteision ac anfanteision unrhyw gynigion a wnaed). Awgrymir bod y cwestiwn cyntaf yn cael ei drafod yn agored ac yn fanwl yn y cyfarfod, gyda'r ddau gwestiwn olaf yn darparu myfyrio rhwng cyfarfodydd. Efallai yr hoffech ofyn i gyfranogwyr fyfyrio ar y rhain a dychwelyd i gyfarfod dilynol neu weithio mewn grwpiau cwricwlwm neu gamau/gyfnodau allweddol/grwpiau blwyddyn i drafod y rhain cyn dod at ei gilydd fel staff cyfan.